**Enw'r Ysgol: Ysgol Y Gorlan**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Nid yw Addysg Grefyddol wedi ymddangos yn flaenoriaeth o fewn yr HA yn ddiweddar, gan nas ystyrir bod pryder. Fodd bynnag, mae gan aelod o staff ac aelod o'r Llywodraethwyr gyfrifoldeb penodol am y maes.
- Dywed Estyn ( Haf 2014) bod y rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn ymddwyn yn dda, yn dangos cwrteisi, gofal a pharch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus eu bod yn medru troi at unrhyw un am gymorth pe bai angen. Ystyrir hyn yn dystiolaeth dda o Addysg Grefyddol echblyg.
- Yn ddiweddar, gwelir mwy o gyfleodd i gyflwyno a datblygu llythrennedd drwy Addysg Grefyddol.
- Bu i'r dosbarthiadau gynnig cyfleoedd i ddatblygu mwy ar ddealltwriaeth y plant o grefyddau eraill (e.e. Sikhiaeth â chyswllt stori creu y byd mor debyg rhwng pob crefydd) ynghŷd â chrefydd Cristnogol yn y cynlluniau gwaith.
- Rhoddir cyfleoedd o fewn pob dosbarth i gyflwyno amrywiol agweddau e.e. Iddewiaeth ym Ml 5 a 6, Doethineb Solomon fel gweithdy drama yn Ml 3 a 4 , holi'r Tad Dylan am ei waith ym Ml 1 a 2, a Bedydd babi gyda'r Parchedig Iwan Llywelyn yn y Derbyn/ Meithrin.

**Materion i gael sylw**.

- Dod ac agweddau o Addysg Grefyddol i sylw'r plant yn rheolaidd ar lawr y dosbarth. Codi ymwybyddiaeth ohono yn gyffredinol.
- Derbyn arweiniad gan ymgynghorydd o'r Sir i edrych ar gynlluniau gwaith a rhoi gwybodaeth am weithgareddau amrywiol ynghyd a thasgau Medrau Meddwl oddi fewn i'r pwnc.
-

**Deuir i'r farn fod medrau a chynnydd y rhan fwyaf o ddisgyblion traws ysgol yn datblygu'n effeithiol o fewn Addysg Grefyddol = Da**

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl,
  Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen
  yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae'r athrawon yn hyderus i gyflwyno Addysg Grefyddol ar lawr y dosbarth ac mae'r plant yn llawn brwdfrydedd.
- Mae'r plant yn hyderus i adrodd storiâu cyfarwydd o'r Beibl ac yn mwynhau dramateiddio straeon gan hefyd ddysgu ymadroddion cyfoethog. Gall mwyafrif y plant chwarae rôl neu ail greu rhan o storïau cyfarwydd.
- Mae'r athrawon yn hyderus iawn i ddysgu Addysg Grefyddol. Cant eu herio wrth gyd-weithio gyda 'phartner trafod' i drafod symbolau crefyddol yn ogystal ag ymchwilio dros eu hunain i .e. mannau / defodau crefyddol. Dywed Estyn (Haf 2014) am yr addysgu yn gyffredinol, "*Maent yn defnyddio ystod addas o adnoddau, gan gynnwys offer TGCh, yn llwyddiannus i gefnogi'r dysgu. Mae'r holl athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn*

*ymestyn dealltwriaeth y disgyblion."*

- O astudio crefydd yng Nghymu, mae'r disgyblion yn dangos balchder yn eu Cymreictod a'u hetifeddiaeth.
- Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn modelu iaith addas ar gyfer gwersi Addysg Grefyddol gan ehangu geirfa bwnc penodol.
- Bydd dysgwyr CA2 yr ysgol yn ymweld a Choleg y Bala yn rheolaidd ac mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o e.e. stori'r Pasg.
- Bydd y plant yn parchu agweddau a straeon o'r Beibl trwy wrando ar y ficer lleol, gweinidog lleol a swyddog coleg y Bala a ddaw i'r ysgol yn rheolaidd; yn sgil hyn bydd y plant yn ennyn dealltwriaeth ehangach o grefydd Cristnogol yn ogystal â magu empathi tuag at eraill.
- Caiff gweithgareddau dysgu eu cyfoethogi trwy weithgareddau, arteffactau neu ymwelwyr. Gwneir defnydd rheolaidd o Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd er mwyn sbarduno'r plant.
- Mae'r ysgol wedi cydweithio'n dda er mwyn ariannu Bwthyn y Gorlan yn Kenya fel rhan o brosiect Omwabani. Mae hyn yn hybu dealltwriaeth disgyblion o faterion byd-eang a chynorthyo rhai llai ffodus na ni ein hunain.

**Materion i gael sylw**

- Sicrhau archebu arteffactau crefyddol amrywiol mewn da bryd i sbarduno'r plant yn y gwersi. Ystyried prynu os yn addas.
- Angen cyflwyno Addysg Grefyddol trwy fwy o ardaloedd y Cyfnod Sylfaen e.e yn yr ardal chwarae rol.
- Ymweld ag adeiladau crefyddol fel y Mosg ym Mangor tra'n astudio crefyddau heblaw Cristnogaeth.

# Deuir i'r farn fod darpariaeth o fewn Addysg Grefyddol = Da

Deuir i'r farn fod darpariaeth o fewn Addysg Grefyddol = Da

**Cwestiwn Allweddol 3: Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol? YDY**

- 

**Cyfeiriadau: Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae gwasanaeth boreol unai yn y dosbarth neu'r neuadd yn amrywiol ac yn gosod cywair cywir i'r plant ar ddechrau pob dydd yn yr ysgol.
- Bydd y plant yn derbyn amrywiaeth o straeon h.y. straeon o'r Beibl, straeon cyfoes moesol a thasgau ymarferol.
- Bydd yr ysgol i gyd yn cyd ganu emynau traddodiadol a chyfoes yn rheolaidd sydd yn ychwanegu at ddealltwriaeth y plant o addoli ar y cyd.
- Bydd y plant yn parchu agweddau a straeon o'r Beibl trwy wrando ar y ficer lleol, gweinidog lleol a swyddog coleg y Bala yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Anelir iddynt ymweld o leiaf unwaith pob hanner tymor. Yn sgil hyn bydd y plant yn ennyn dealltwriaeth ehangach a dyfnach o grefydd Cristnogol.
- Bydd yr ysgol yn cynnal gwasanaeth Diolchgarwch yn y Capel a dathliadau'r Pasg yng Ngorlan. Mae hyn yn cyfoethogi dealltwriaeth y plant o fannau addoli yn eu milltir sgwâr a'r defnydd ohonynt i addoli ar y cyd o fewn cymdeithas.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Creu naws arbennig i'r gwasanaethau er mwyn annog ethos o fyfyrdod; e.e cerddoriaeth arbennig , cannwyllau a.y.y.b.

**Deuir i'r farn fod addoli ar y cyd = Da**

**Llofnod: Eleri M Davies (Pennaeth)**

**Dyddiad:** **Ionawr 18fed, 2015**